



Llwybrau Hyrwyddedig Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

# Craig y Ddinas, Dyffryn Ardudwy

CYMEDROL



© Hawffraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2022 OS 100022403  
© Crown copyright and database rights 2022 OS 100022403


## Trosolwg o'r Daith

- Pellter: 6.km (3.7 milltir)
- Hyd: 1 awr
- Math o daith: Yno ac yn ôl


## Cyn i chi gychwyn

Darllenwch y wybodaeth diogelwch a graddio llwybrau ar wefan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri cyn i chi gychwyn ar eich taith.

[eryri.llyw.cymru](http://eryri.llyw.cymru)




1  
Trowch i'r dde wrth adael y maes parcio a dilynwch y ffordd syth ymlaen trwy ddwy giât olynol oddeutu 50m o'i gilydd.



2  
Ewch yn eich blaen ar hyd y ffordd ac yn fuan byddwch yn mynd heibio adfeilion Cors-uchaf ar eich chwith.



3  
Yn fuan, byddwch yn cyrraedd dwy giât. Ewch trwy'r giât ar y dde. Mae'r trac yn gwro'n syth i'r dde. Pan fydd y trac yn gwro i'r chwith, byddwch yn gweld Craig y Ddinas yn y pellter ar eich dde ac y tu ôl i'r fryngaer, cefn Llawlech.




4  
Mae'r ffordd yn dringo'n araf tuag at lethrau Moelfre. Ewch trwy'r giât ac ymhen 500m ewch trwy giât arall. Byddwch wedi cyrraedd y tir mynediad agored.



5  
Cerddwch ar hyd y ffordd am tua 500m, trowch i'r dde ac anelu i'r de-orllewin tuag at gamfa sy'n croesi wal garreg oddeutu 300m i ffwrdd. Gall y rhan yma fod yn wlyb a garw ar brydiau.



6  
Ewch dros y gamfa ac ewch tuag at fryngaer Craig y Ddinas sydd ond tua 300m i ffwrdd.



7  
Wedi cyrraedd y fryngaer, cymerwch eiliad i fwynhau'r golygfeydd godidog. Cofiwch archwilio gweddillion y tai crynion ar ochr ddwyreiniol y fryngaer. I ddychwelyd yn ôl i ddechrau'r daith, ewch yn ôl at y trac, trowch i'r chwith a dilynwch y llwybr yn ôl i'r maes parcio.